# A yw'n Hydoddi?



Nod: I ddarganfod pethau sy'n hydawdd ac anhydawdd.

**Offer:**

- Gwahanol sylweddau e.e.
  halen
  siwgr
  sialc
  talc
  coffi
  tywod
  pridd
  blawd
  pubur
  ciwb o jeli
- Cynhwysydd tryloyw gyda 100ml o ddŵr cynnes (dim rhy boeth!)
- Llwy de i fesur
- Llwy dê i droelli
- Amserydd e.e. cloc neu ffôn
- Pensil a phapur i gofnodi

**Diogelwch:**



Byddwch yn ofalus…

- Peidiwch defnyddio unrhyw sylwedd heb wirio gyda'ch rieni
- Peidiwch defnyddio dim byd sydd gyda label perygl.
- Peidiwch a defnyddio dŵr sydd rhy boeth.
- Byddwch yn oflaus os ydych yn defnyddio cynhwysydd gwydr.
- Sychwch unrhyw hylif sydd wedi arllwys ar y llawr rhag ofn i chi lithro.

Dull:

1. Mesurwch 100ml o ddŵr cynnes a'i arllwys yn oflaus mewn i'ch cynhwysydd.
2. Mesurwch 1 llwy dê o'r sylwedd a'i rhoi yn y dŵr.
3. Troellwch y sylwedd yn y dŵr am 3 munud.
4. Cofnodwch os oedd y sylwedd yn hydawdd h.y. wedi hydoddi (wedi diflannu o'r golwg) neu yn anhydawdd h.y. ddim wedi hydoddi (dal i'w weld yno).
5. Gwnewch hyn ar gyfer pob sylwedd.



| Sylwedd | Rhagfynegiad?<br>(cyn gwneud yr arbrawf)<br><br>Hydawdd neu anhydawdd? | Canlyniad?<br>(beth ddigwyddodd)<br><br>Hydawdd neu anhydawdd? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |